

#MulletOver



Arwydd ei fod yn sgam

Ni fydd eich banc, nac unrhyw sefydliad swyddogol arall, yn gofyn i chi rhannu gwybodaeth bersonol drwy e-bost neu neges destun. Os oes angen i chi wirio ei bod yn neges go iawn, ffoniwch nhw yn uniongyrchol

ActionFraud
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre
www.actionfraud.police.uk

**Cyber
Aware**

TO STOP FRAUD

Mae nifer o negeseuon sgam yn rhannu arwyddion amlwg cyffredin. Mae gofyn i chi "gadarnhau" manylion ariannol personol yn un ohonynt.

A allech chi weld arwyddion amlwg achos o we-rwydo? 📞 Dysgwch fwy yma:
<https://www.actionfraud.police.uk/mulletover> #MulletOver

Beth yw gwe-rwydo a sut mae'n gweithio?

Ni fydddech yn gadael lleidr i mewn i'ch cartref, ond beth os oedd y lleidr yn esgus bod yn rhywun cyfarwydd, fel postmon, ac yn eich twyllo i agor y drws? Mae gwe-rwydo yn gweithio mewn ffordd debyg – mae troseddwr yn defnyddio negeseuon a gwefannau sy'n edrych yn ddilys i dwyllo pobl i agor y drws i'w data personol, rhoi manylion mewngofnodi, cyfrineiriau neu fanylion talu hyd yn oed. Gellir defnyddio'r wybodaeth honno wedyn i gyflawni twyll a seiberdroseddau.

Pa mor fawr yw'r broblem?

Mae ymosodiadau gwe-rwydo yn her ddiogelwch gyffredin y mae unigolion a busnesau ledled y DU yn wynebu yn rheolaidd. Cafodd Gwasanaeth Rhoi Gwybod am Negeseuon E-bost Amheus y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol dros 1.7 miliwn o adroddiadau gan y cyhoedd rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020, gyda Trwyddedu Teledu, CThEM a GOV.UK ymhlith y brandiau mwyaf cyffredin i gael eu cynnwys mewn negeseuon gwe-rwydo.

Sut allwch chi ddiogelu eich hun rhag sgamiau gwe-rwydo?

Mae gan nifer o'r sgamiau gwe-rwydo y rhoddir gwybod amdanynt i ni un peth yn gyffredin – gwnaethant ddechrau gyda neges annisgwyl. P'un a yw'n e-bost yn gofyn i chi "gadarnhau" gwybodaeth eich cyfrif, neu'n neges destun yn honni ei bod gan eich banc, un nod sydd gan ymosodiad gwe-rwydo fel arfer – sef eich twyllo i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol ac ariannol.

Mae'r troseddwr yn arbenigwr wrth ddynwared pobl eraill, ac mae eu gallu i greu negeseuon e-bost a negeseuon testun ffug sy'n edrych fel rhai go iawn, yn gwella drwy'r amser. Dyma gyngor syml y gallwch ei ddilyn wrth ddelio â sgamiau gwe-rwydo:

1 – Cofiwch, ni fydd eich banc, nac unrhyw sefydliad swyddogol arall yn gofyn i chi rannu gwybodaeth bersonol dros e-bost na neges destun. Os bydd angen i chi gadarnhau ei bod yn neges go iawn, ffoniwch nhw yn uniongyrchol.

Peidiwch â defnyddio'r rhifau/cyfeiriadau e-bost yn yr e-bost. Yn hytrach, ewch i'r wefan swyddogol.

2 – Os byddwch wedi cael e-bost sy'n ymddangos yn amheus, anfonwch ef i'r Gwasanaeth Rhoi Gwybod am Negeseuon E-bost Amheus (SERS):

report@phishing.gov.uk. Os bydd yr e-bost yn un maleisus, bydd y ffaith eich bod yn rhoi gwybod amdano yn helpu i atal pobl eraill rhag cael eu twyllo.

3 – Ydych chi wedi cael neges destun sy'n ymddangos yn amheus? Efallai ei bod yn gofyn i chi "gadarnhau" manylion personol neu ariannol, fel cyfrinair bancio? Gallwch roi gwybod am negeseuon testun drwy eu hanfon i 7726.

4 – Os byddwch chi wedi colli arian neu wedi darparu gwybodaeth bersonol o ganlyniad i e-bost gwe-rwydo, rhowch wybod i'ch banc ar unwaith a rhowch wybod amdano i:

Action Fraud: www.actionfraud.police.uk

I gael rhagor o awgrymiadau syml ynglŷn â sut i ddiogelu eich hun ar-lein, ewch i: www.actionfraud.police.uk/cybercrime